| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **27 MEHEFIN 2022** |
| TEITL: | **CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS: | **I gymeradwyo'r Cynllun Busnes** |
| ARGYMHELLIAD: | **CYMERADWYO'R CYNLLUN BUSNES** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi diweddaru ei Gynllun Busnes ac eisiau derbyn cymeradwyaeth gan y pwyllgorau unigol o fewn y bartneriaeth.

Cafodd y Cynllun Busnes ei gyflwyno i'r Cyd- Bwyllgor Llywodraethu ar gyfer cymeradwyaeth 23ain o Fawrth 2022.

## 2. CYNLLUN BUSNES

Mae cynllun busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut mae'r bartneriaeth yn mynd i gyflawni ei nodau. Mae'r cynllun busnes yn cael ei fonitro'n gyson ac yn cael ei adolygu a'i gytuno'n ffurfiol bob blwyddyn. Pwrpas y cynllun busnes yw:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu'r PPC
- Amlinellu'r blaenoriaethau a'r amcanion dros y tair blynedd nesaf
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod y Cynllun Busnes
- Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad PPC

Ceir wybodaeth o safbwynt marchnata, ariannol a gweithredol, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y bartneriaeth yn ystod 2022- 2025 a gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i gyflawni ei amcanion.

Mae'r Cynllun Busnes ynghlwm ar gyfer eich adolygiad yn Atodiad 1.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod y Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo.